

## **Atodiad 1**

### **DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIAD( CYMRU) 2021**

#### **RHAN 1 - ETHOLIADAU**

Mewn grym ar gyfer etholiad 2022.

1. Ymestyn yr Etholfraint i oedran 16 i fyny ac hefyd pleidleiswyr tramor cymwys .
2. Hawl i swyddogion cyngor sefyll etholiad heb ofyn iddynt ymddiswyddo os nad ydynt yn llwyddiannus ( eithrir swyddogion mewn swyddi wleidyddol gyfyngedig)
3. Hawl i Gyngor ddewis trefn Pleidleisio Mwyafrifol neu STV. Bydd yr hawl yma yn dod yn weithredol wedi etholiadau 2022.

#### **RHAN 2 – PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL I AWDURDODAU LLEOL**

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Hydref 2021

- Rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol Brif Gyngor a Rhai Cyngorau Tref a Chymuned Cymwys
- Adlewyrchu Pŵer Cyffelyb yn Lloegr – Felly er fod y pŵer yn rhoi hyblygrwydd i'r Cyngorau mae unrhyw gyfyngiadau statudol sydd eisoes mewn grym neu ddaw i rym yn cael blaenoriaeth.

#### **RHAN 3 - HYBU MYNEDIAD AT LYWODRAETH LEOL**

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Mai 2022

- Dyletswydd i annog cyfranogiad y cyhoedd mewn materion megis penderfyniadau
- Gofyn i fabwysiadu Strategaeth Cyfranogiad
- Gofyn i fabwysiadu Cynllun Deisebau
- Gofyn cyhoeddi Canllawiau i'r Cyfansoddiad
- Gosod gofyn statudol i we ddarlledu ystod o gyfarfodydd.
- Rhoi mynediad o bell gan aelodau ar sail statudol – Bydd hyn mewn grym ar gyfer Mai 2021.
- Ymgorffori newidiadau i faterion megis cyhoeddi rhaglenni cyfarfodydd ac ymdrin a materion megis cyhoeddi penderfyniadau.

#### **RHAN 4 – GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL**

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Mai 2022

- Sefydlu Swydd “Prif Weithredwr” ar sail statudol gyda cyfrifoldebau penodol.
- Caniatáu rhannu swyddi aelodau Cabinet
- Caniatáu penodi aelodau fel cynorthwyon Aelodau Cabinet
- Caniatáu rhannu swyddi Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion
- Arweinyddion Grwpiau a chyfrifoldeb statudol am ymddygiad eu haelodau
- Gosod adroddiad Blynnyddol Pwyllgor Safonau i'r Cyngorau ar sail statudol.

#### **RHAN 5 – CYDWEITHIO GAN BRIF GYNGHORAU**

Mae'r rhan yma mewn grym ac mae rheoliadau drafft wedi bod yn destun ymgynghoriad. Ymddengys ar hyn o bryd fod yr ymgynghoriad wedi amlygu ystod o faterion sydd yn derbyn sylw pellach)

- Pŵer gweinidogion i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforedig. Mae'r rhain yn fath newydd o gorff llywodraeth leol. Byddent yn gorfforaethau gyda statws cyfreithiol eu hunain.
- Arweinyddion y Cynghorau fydd aelodau craidd
- Pŵer mandadu – Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth, Llesiant Economaidd a Gwella Ysgolion. Mae'r rheoliadau drafft wedi adnabod rhanbarth Gogledd Cymru fel ardal y Cyd Bwyllgor
- Hawl gan 2 neu fwy o gynghorau wneud cais i sefydlu drwy offeryn statudol

## **RHAN 6 – PERFFORMIAD A LLYWODRAETHU PRIF GYNGHORAU**

Dod i rym Ebrill 2021 gyda rhai eithriadau - isod

- Sefydlu cysyniad o adroddiad perfformiad blynyddol statudol ac ymgynghori fel rhan o'r broses
- Apwyntio "Panel" ar gyfer cynnal asesiad perfformiad - **Dod i rym Mai 2022**
- Angen am osod Amcanion Gwella ( Gwerth Gorau) yn cael ei ddileu
- Sefydlu ac enwi Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bellach yn statudol
- Pwyllgor Archwilio yn mabwysiadu swyddogaeth trosolwg trefniadau cwynion
- Rhaid i o 'leiaf 1/3 yr aelodau fod yn lleyg ynghyd a'r Cadeirydd - **Dod i rym Mai 2022**

## **RHAN 7 – UNO AC AILSTRWYTHURO PRIF ARDALOEDD**

Mewn grym gyda ambell eithriad technegol

- Sefydlu fframwaith ar gyfer proses uno cynghorau pe fyddai cynllun o'r fath yn dod ymlaen.

## **RHAN 8 – CYLLID LLYWODRAETH LEOL**

Mewn Grym dau fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol

- Pwerau i fynnu gwybodaeth yn ymwneud â hereditamentau, gwybodaeth sy'n berthnasol wrth benderfynu a yw person yn atebol i dalu trethi annomestig,
- Tynnu ymaith y pŵer i ddarparu ar gyfer Carcharu Dyledwyr y Dreth Gyngor

## **RHAN 9 – AMRYWIOL**

Rhagwelir y bydd mewn grym erbyn Mai 2022

- Rhoi statws gwarchodaeth prif swyddog statudol i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
- Diddymu y rhwystr ar Swyddog Monitro fod yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd.
- Darpariaethau ynglŷn ag uno a dad-uno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.